# COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR GWAITH - DYDD MERCHER, 13 TACHWEDD 2019 DYDD MERCHER, 13 TACHWEDD 2019**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors G. Collier
J. Collins
J. Mason

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>**YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb:-<br><br>Cynghorydd D. Davies<br>Rheolwr Gyfarwyddwr<br><br>**CROESO**<br><br>Croesawodd yr Arweinydd y Cynghorydd Wilkins, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol i'r cyfarfod. Dywedodd | |

| | | |
|---|---|---|
| | yr Arweinydd y gwahoddwyd y Cadeirydd i roi adborth ar y sylwadau/argymhellion a wnaed yng nghyfarfod Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol yng nghyswllt adroddiadau Strategaeth Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu 2018-2025 a'r Achos Busnes Strategol - Datblygu Ail Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi (HWRC). | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| | **<u>MATERION CYFFREDINOL</u>** | |
| **No. 4** | **<u>CYNADLEDDAU A CHYRSIAU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i bresenoldeb yn y dilynol:-<br><br><u>Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Chynhadledd CLAW – 14 Tachwedd 2019</u><br><br>PENDERFYNWYD rhoi cymeradwyaeth i'r Cynghorydd G. Collier, Dirprwy Arweinydd/Aelod Gweithredol - Amgylchedd a Clive Rogers, Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol fynychu.<br><br><u>Digwyddiad Cyflwyno'r Fyddin - 21 Tachwedd 2019</u><br><br>PENDERFYNWYD rhoi cymeradwyaeth i'r Cynghorydd B. Thomas, Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog fynychu. | |
| | **<u>COFNODION</u>** | |
| **No. 5** | **<u>PWYLLGOR GWEITHREDOL</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Gweithredol a gynhaliwyd ar 26 Medi 2019.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION GWASANAETHAU CORFFORAETHOL** | |
| **No. 6** | **BLAENRAGLEN GWAITH - 18 RHAGFYR 2019**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Arweinydd/Aelod Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol.<br><br>Dywedodd yr Aelod Gweithredol y byddai angen gohirio'r adroddiad ar Gludiant a Chymorth - Polisi Codi Tâl tan gyfarfod mis Ionawr.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.<br><br>PENDERFYNWYD YMHELLACH, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a nodi'r flaenraglen gwaith ar gyfer 18 Rhagfyr 2019. | |
| **No. 7** | **GRANTIAU I SEFYDLIADAU**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Hysbyswyd aelodau am y grantiau ychwanegol dilynol a gyflwynwyd i gael eu cymeradwyo ers paratoi'r adroddiad:-<br><br>**ABERTYLERI**<br><br>**Ward Abertyleri - Cynghorydd N. Daniels**<br>1. Gorymdaith Sul y Cofio £<br><br>**Ward Abertyleri - Cynghorydd J. Holt**<br>1. Gorymdaith Sul y Cofio £<br><br>**Ward Abertyleri- Cynghorydd M. Cook**<br>1. Gorymdaith Sul y Cofio £<br><br>**Ward Cwmtyleri - Cynghorydd T. Sharrem**<br>1. Gorymdaith Sul y Cofio £ | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Ward Cwmtyleri- Cynghorydd J. Wilkins** | | |
| | 1. | Gorymdaith Sul y Cofio | £ |
| | **Ward Cwmtyleri - Cynghorydd M. Day** | | |
| | 1. | Gorymdaith Sul y Cofio | £ |
| | **Ward Llanhiledd - Cynghorydd H. McCarthy** | | |
| | 1. | Gorymdaith Sul y Cofio | £ |
| | **Ward Llanhiledd - Cynghorwyr J. Collins a N. Parsons** | | |
| | 1. | Gorymdaith Sul y Cofio | £ |
| | Ward Six Bells – Cynghorydd D. Hancock | | |
| | 1. | Gorymdaith Sul y Cofio | £ |
| | Ward Six Bells – Cynghorydd M. Holland | | |
| | 1. | Gorymdaith Sul y Cofio | £ |
| | **BRYNMAWR** | | |
| | **Ward Brynmawr - Cynghorydd J. Hill** | | |
| | 1. | Gorymdaith Sul y Cofio | £ |
| | 2. | Cwmni Theatr Gerdd Brynmawr | £1 |
| | **Ward Brynmawr - Cynghorydd L. Elias** | | |
| | 1. | Gorymdaith Sul y Cofio | £ |
| | 2. | Cwmni Theatr Gerdd Brynmawr | £1 |
| | 3. | Mini Rygbi Glynebwy | £ |
| | **Ward Brynmawr -** | | |

**Cynghorydd W. Hodgins**

1. Gorymdaith Sul y Cofio £62

**GLYNEBWY**

Ward Badminton – Cynghorydd G. Paulsen

1. Gorymdaith Sul y Cofio £

Ward Badminton – Cynghorydd C. Meredith

1. Gorymdaith Sul y Cofio £

Ward Beaufort - Cynghorwyr G. Thomas a S. Healy

1. Gorymdaith Sul y Cofio £2

Gogledd Glynebwy – Cynghorwyr D. Davies, P. Edwards a R. Summers

1. Gorymdaith Sul y Cofio £
2. Dyfrgwn Blaenau Gwent £

De Glynebwy – Cynghorwyr J. Millard a K. Pritchard

1. Gorymdaith Sul y Cofio £

Ward Rasa – Cynghorydd G. Davies

1. Gorymdaith Sul y Cofio £1

Ward Rasa – Cynghorydd D. Wilkshire

1. Gorymdaith Sul y Cofio £1

**NANTYGLO A BLAENAU**

Ward Nantyglo – Cynghorydd P. Baldwin

1. Gorymdaith Sul y Cofio £1

Ward Nantyglo – Cynghorwyr J. Mason a K. Rowson

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 1. | Gorymdaith Sul y Cofio | £221 |
| | 2. | Pensiynwyr Nantyglo | £200 |
| | 3. | Pensiynwyr Winchestown | £200 |
| | 4. | Eglwys Santes Anne | £200 |
| | 5. | Capel Wesleyaidd | £200 |
| | 6. | Ymddiriedolaeth Mynwent Hermon | £200 |
| | 7. | Clwb Rygbi Nantyglo | £200 |
| | 8. | Ysgol Coed y Garn | £200 |
| | 9. | Ysgol Gymraeg Bro Helyg | £200 |
| | 10. | Sgwadon 275 ATC Nantyglo a Blaenau | £100 |
| | 11. | Sgowtiaid Nantyglo a Blaenau | £100 |
| | 12. | Crefft Ymladd Falcon | £100 |
| | 13. | PHAB | £100 |
| | 14. | BGFM | £100 |
| | 15. | Clwb Pêl-droed Nantyglo | £100 |
| | 16. | Siop Gymunedol Nantyglo | £100 |
| | 17. | Hooks & Pins | £100 |
| | 18. | Goleuadau Nadolig Cyngor Tref Nantyglo a Blaenau | £100 |
| | 19. | Blaenau Gwent Rhythm & Ukes | £100 |
| | 20. | Apêl Maer Nantyglo a Blaenau | £100 |
| | <u>Ward Blaenau – Cynghorydd J. P. Morgan</u> | | |
| | 1. | Gorymdaith Sul y Cofio | £110.50 |
| | 2. | Apêl Jack Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | £285 |
| | <u>Ward Blaenau – Cynghorydd L. Winnett</u> | | |
| | 1. | Gorymdaith Sul y Cofio | £110.50 |
| | 2. | Apêl Jack Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | £285 |
| | <u>Ward Blaenau - Cynghorydd G.</u> | | |

| | | |
|---|---|---|
| | Collier<br>1. Gorymdaith Sul y Cofio £110.50<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r grantiau a nodir ynddo. | |
| **No. 8** | **SIARTER CYTUNDEB CYFFREDIN RHWNG Y CYNGHORAU CYMUNED A THREF A CHYNGOR BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyd Swyddogion.<br><br>Nododd yr Arweinydd y Siarter Cytundeb Cyffredin rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a phob un o'r pedwar Cyngor Cymuned a Thref a gytunwyd gyda'r holl Gynghorau Tref a Chymuned. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r Siarter yn rhoi dull gweithredu mwy strategol a pherthnasol rhwng Cynghorau Tref a'r Cyngor Bwrdeistref.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r Siarter Cytundeb Cyffredin newydd rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a'r pedwar Cyngor Cymuned a Thref. Cymeradwywyd y Siarter gan y Cynghorau Cymuned a Thref a'i gadarnhau gan aelodau QLC ym mis Medi 2019. | |
| **No. 9** | **POLISI AMSER BANT AR GYFER AELODAU LLUOEDD WRTH GEFN**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol i gael ei ystyried.<br><br>Nododd yr Arweinydd yr adroddiad sy'n hunan-esboniadol wrth ceisio cymeradwyaeth ar gyfer polisi newydd ar gyfer yr Awdurdod ar gyfer amser bant i aelodau'r lluoedd wrth gefn. Dywedodd yr Arweinydd fod rhoi cefnogaeth i aelodau'r lluoedd wrth gefn yn elfen bwysig yn y Dyfarniad Arian a roddwyd os caniateir y Polisi.<br><br>Ychwanegodd yr Arweinydd fod Blaenau Gwent yn sefydliad arweiniol wrth gyflawni Cyfamod y Lluoedd Arfog a dymunai sôn am y Cynghorydd Brian Thomas, Hyrwyddwr Lluoedd Arfog sydd wedi cynrychioli Blaenau Gwent yn dda iawn mewn pob | |

| | | |
|---|---|---|
| | digwyddiad cysylltiedig.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cefnogi a chymeradwyo'r Polisi Amser Bant ar gyfer Aelodau'r Lluoedd Arfog. | |
| **No. 10** | **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2018/2019</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo a chyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Archwilio i gael sicrwydd fod y broses ar gyfer monitro cwynion yn gadarn a bod yr wybodaeth perfformiad a roddwyd yn adlewyrchu'r arferion hyn. | |
| | **<u>EITEMAU PENDERFYNIAD - MATERION AMGYLCHEDD</u>** | |
| **No. 11** | **<u>STRATEGAETH RHEOLI GWASTRAFF AC AILGYLCHU 2018-25</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Amgylchedd.<br><br>Siaradodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol am yr adroddiad sy'n cyflwyno'r drafft Strategaeth Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu i aelodau'r Pwyllgor Gweithredol. Dywedodd y Swyddog y datblygwyd y Strategaeth mewn dau ran gyda'r Strategaeth yn amlinellu'r weledigaeth, cyd-destun, amcanion a dulliau cyflenwi a'r Cynllun Gweithredu yn rhoi'r manylion a'r amserlenni sy'n adlewyrchu'r amcanion a gofynion cyflenwi.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol fod y Strategaeth yn nodi'r weledigaeth hirdymor ar gyfer gwasanaethau rheoli gwastraff ac ailgylchu. Aiff y Strategaeth tu hwnt i dargedau Llywodraeth Cymru gan ddynodi un strategaeth integredig sy'n nodi sut y byddai Blaenau Gwent yn cyflawni ei gweledigaeth, yn gweithio gydag eraill, yn ymgysylltu gyda phreswylwyr a gosod nodau a ffyrdd o weithio Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol wrth galon popeth a wnaiff. Cafodd y weledigaeth ar gyfer gwastraff ac | |

| | | |
|---|---|---|
| | ailgylchu ei hamlinellu ymhellach fel y nodir yn yr adroddiad.<br><br>Ychwanegodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol fod y Pwyllgor Craffu yn cefnogi'r polisi drafft gyda'r argymhelliad y dylai unrhyw newidiadau gwasanaeth yn y dyfodol ddychwelyd i'r Pwyllgor Craffu i gael eu hystyried cyn eu gweithredu.<br><br>Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol y goblygiadau ariannol a'r effaith bosibl ar ofynion cyllid refeniw a hefyd gyllid cyfalaf yn gysylltiedig gyda datblygu a gweithredu'r strategaeth. Dywedodd y Swyddog y byddid yn dod â'r materion cysylltiedig hyn ymlaen wrth benderfynu ar newidiadau gwasanaeth yn y dyfodol.<br><br>Ar y pwynt hwn rhoddodd yr Arweinydd wahoddiad i Gadeirydd Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol roi sylwadau'r Pwyllgor Craffu. Dywedodd y Cadeirydd y cafodd y ddrafft strategaeth ei hystyried gan y Pwyllgor Craffu ac ategodd yr argymhelliad a wnaed yn nhermau bod unrhyw newidiadau gwasanaeth yn y dyfodol yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Craffu cyn eu gweithredu.<br><br>Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Cymunedol hefyd y bu cais i swyddogion ymchwilio ffyrdd i gasglu gwastraff anifeiliaid anwes.<br><br>Dywedodd yr Arweinydd iddo eistedd yn yr oriel gyhoeddus adeg y Pwyllgor Craffu ac y bu'n gyfarfod da iawn a gafodd ei gadeirio'n dda gyda'r Cynghorydd Wilkins a gadwodd yr Aelodau ar y trywydd yn dda iawn. Nododd yr Arweinydd y materion a godwyd yng nghyswllt gwastraff anifeiliaid anwes a dywedodd fod hyn yn fater a nodwyd yn Sesiynau Ymgysylltu Golwg Strydoedd. Nodwyd fod y Cyngor yn rhedeg casgliad glanweithdra llwyddiannus felly gellid ymchwilio'r un broses ar gyfer gwastraff anifeiliaid anwes.<br><br>Cefnogodd y Dirprwy Arweinydd/Aelod Gweithredol Amgylchedd y polisi a fyddai'n helpu mynd i'r afael â chyfraddau ailgylchu i osgoi'r Awdurdod rhag gorfod talu cosbau. Teimlai'r Dirprwy Arweinydd y byddai'n well gwario'r arian a ddefnyddir ar gyfer unrhyw gosbau posibl ar wasanaethau eraill.<br><br>Cytunodd y Dirprwy Arweinydd ymhellach gyda'r awgrym i ymchwilio casgliadau gwastraff anifeiliaid anwes. Teimlai nad oedd hynny'n dasg amhosibl gan y gellir cyflwyno casgliad tebyg i | |

| | | |
|---|---|---|
| | wastraff glanweithdra.<br><br>Cytunodd yr Aelodau Gweithredol gyda'r ymchwiliadau i drin gwastraff anifeiliaid anwes ac felly cytunwyd ychwanegu hynny at yr argymhelliad y dylid llunio adroddiad i'w ystyried gan y Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Gweithredol. Ychwanegodd yr Arweinydd y byddai goblygiad cost, fodd bynnag yn yr achos hwn byddai'n gost gwerth ei ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.<br><br>PENDERFYNWYD YMHELLACH, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chadarnhau Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r Strategaeth ddrafft ar Reoli Gwastraff ac Ailgylchu. Hefyd, bod adroddiad yn cael ei lunio i ddatblygu gwasanaeth casglu gwastraff anifeiliaid anwes a'i gyflwyno i Bwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol a'r Pwyllgor Gweithredol i gael ei ystyried. | |
| **No. 12** | **<u>YR ACHOS BUSNES STRATEGOL - DATBLYGU AIL GANOLFAN AILGYLCHU GWASTRAFF CARTREFI (HWRC) YM MHARC BUSNES DE ROSEHEYWORTH</u>**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol i gael ei ystyried.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Cymdogaeth am yr adroddiad ac amlinellu'r prif bwyntiau ynddo. Nododd y Rheolwr Gwasanaeth y gefnogaeth a gafwyd gan WRAP i ddatblygu'r Achos Busnes Strategol sy'n ffurfio rhan o'r cais i Lywodraeth Cymru. Roedd arweinwyr y Cyngor wedi cwrdd gyda'r Dirprwy Weinidog ym mis Gorffennaf i amlinellu'r achos busnes a chadarnhau ymrwymiad y Cyngor i gyrraedd y targedau ailgylchu 64% a 70%.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau erbyn hyn y bu'r Cyngor yn llwyddiannus wrth gael y dyfarniad llawn o gyllid cyfalaf ar gyfer £2.8m a nododd amcangyfrif o gostau'r HWRC newydd sy'n cynnwys gosod goleuadau traffig ar yr A467. Croesawyd hynny gan Aelodau oherwydd nifer y damweiniau ar y gyffordd i Barc Busnes Roseheyworth.<br><br>Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth at yr opsiynau a dywedodd fod | |

y Pwyllgor Craffu wedi codi pryderon am barhau digwyddiadau tipio anghyfreithlon pe byddid yn gostwng nifer y dyddiau y mae'r safle ar gael. Felly cytunwyd ar argymhelliad i adroddiad i'w gyflwyno yng nghyfarfod mis Ionawr roi ystyriaeth i gostau refeniw y safle'n bod ar agor ar 5, 6 a 7 diwrnod.

Er mwyn cynyddu ffrydiau ailgylchu y dyfodol, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol y gellid cynnig ystod ehangach o wasanaethau yn yr ail HWRC yn y dyfodol wrth i ni symud tu hwnt i'r targed 70% a byddai'r safle a gynigir yn galluogi'r Cyngor i ddelio gyda'r cyfleoedd newydd hyn ac y byddid yn dod â'r rhain ymlaen ar yr amser priodol. Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaeth y bu trafodaethau am safle ail-ddefnyddio ar gyfer bric-a-brac a chelfi bach gan nad yw'r Cyngor yn cyflawni'n dda yn y maes hwn ar hyn o bryd. Roedd nifer o gyfleoedd i gael eu hymchwilio wrth i'r safle dyfu yn cynnwys canolfan addysg ac mae Hosbis y Cymoedd wedi datgan diddordeb mewn cydweithio yn y maes.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol fod y Pwyllgor Craffu wedi croesawu'r adroddiad a nododd y codwyd pryderon yng nghyswllt costau refeniw ar yr oriau agor felly gofynnwyd am y adroddiad gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu nesaf i'w ystyried fel mater o frys.

Teimlai'r Dirprwy Arweinydd y byddai'r ail HWRC yn mynd i'r afael â phroblemau tipio anghyfreithlon yn ardal Ebwy Fach a thargedau Llywodraeth Cymru. Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i WRAP am eu cefnogaeth ac i Lywodraeth Cymru am ddyfarnu'r grant i ddatblygu'r safle.

Cefnogodd yr Aelodau Gweithredol ddatblygu'r ail HWRC, sef y weledigaeth ar gyfer y Fwrdeistref, a chytunodd y byddai'n mynd i'r afael â phroblemau tipio anghyfreithlon yng nghwm Ebwy Fach. Byddai'r safle newydd hefyd yn cynorthwyo'r Awdurdod wrth gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru.

Croesawodd yr Arweinydd ddyfarniad y grant llawn gan Lywodraeth Cymru sy'n adlewyrchu hyder Llywodraeth Cymru yng Nghyngor Blaenau Gwent yng nghyswllt gwastraff ac ailgylchu. Teimlai'r Arweinydd y bu cyfarfodydd diweddar gyda'r Gweinidog yn gadarnhaol iawn ac roedd yn dda cael cydnabyddiaeth am y gwaith a wnaed.

| | | |
|---|---|---|
| | Dymunai'r Arweinydd hefyd ddiolch i'r Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Cymdogaeth am y cyflwyniad rhagorol a roddwyd i'r Dirprwy Weinidog a'i chynghorwyr a roedd yr Arweinydd yn sicr y byddai'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn cytuno ei fod yn gyflwyniad rhagorol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1 sef cymeradwyo'r Achos Busnes Strategol ar gyfer datblygu ail Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi. | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>** | |
| **No. 13** | **<u>CYNNIG GOFAL PLANT LLYWODRAETH CYMRU - BLAENAU GWENT A THORFAEN</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant.<br><br>Nododd Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad a thynnu sylw at y cynnydd a wnaed wrth gyflenwi Rhaglen Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru. Ychwanegwyd fod argymhelliad gan y Pwyllgor Craffu i'r Aelod Gweithredol ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i fynegi eu pryderon am yr uchafswm mewn rhifau a lleoliadau Dechrau'n Deg ar gyfer Blaenau Gwent gan fod llawer mwy o gymunedau a fyddai'n manteisio o gynlluniau Dechrau'n Deg.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef yr argymhellion o'r Pwyllgor Craffu fel y'u nodwyd. | |
| | **<u>EITEMAU MONITRO 0 ADDYSG</u>** | |
| **No. 14** | **<u>PERFFORMIAD YSGOLION 2019 AR GYFER: DIWEDD Y CYFNOD SYLFAEN, CYFNOD ALLWEDDOL 2, CYFNOD ALLWEDDOL 3, CYFNOD ALLWEDDOL 4 (DARPARIAETHOL YN UNIG)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Rhoddodd Aelod Gweithredol Addysg drosolwg o'r adroddiad a | |

| | | |
|---|---|---|
| | dywedodd fod hwn yn adroddiad cadarnhaol i'r Awdurdod. Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg gyda'r sylwadau a dywedodd fod Blaenau Gwent yn perfformio'n debyg i awdurdodau eraill yn rhanbarth De Ddwyrain Cymru. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod hyn oherwydd ymroddiad penaethiaid, athrawon a staff cymorth ysgolion.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac Opsiwn 1, sef derbyn y cynnwys a fformat yr adroddiad, gan nodi'r adborth o'r Pwyllgor Cymru, sy'n gosod y gofyniad i barhau i ddatblygu cynnwys a fformat yn unol â''r newidiadau yn y mesurau Cyfnod Allweddol 4 interim dros y blynyddoedd i ddod. | |